Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Wrecsam

Polisi Derbyn

DERBYN DISGYBLION I'R DOSBARTH DERBYN MEDI 2012

Mae Polisi Derbyn yr ysgol wedi ei seilio ar ofynion y ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth sydd mewn grym, yn enwedig:

Cod Derbyn i Ysgolion – Cod Statudol 002/2009
Cod Apêl Derbyn i Ysgolion – Cod Statudol 003/2009
Cyhoeddwyd y ddwy ddogfen yng Ngorffennaf 2009 (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 – yr hawl i rhieni ddewis (Adran 86(1)) a'r hawl i apelio
Deddf Addysg 2002 – diddymu'r hawl i gyfyngu'r nifer a dderbynnir ar sail cyfran y plant y tu allan i'r ffydd
Deddf Addysg 2005 – blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Adran 44) – gwahardd cyfweld plant a rhieni
Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2005

Cyhoeddir canllawiau anstatudol gan Esgobaeth Wrecsam hefyd.

Yng Nghymru nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i blentyn ddechrau'r ysgol tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Yn Ysgol y Santes Fair derbynnir plant pedair oed i'r dosbarth Derbyn ym mis Medi y flwyddyn ysgol maen nhw'n cyrraedd eu pumed pen-blwydd. Y dosbarth derbyn ydy'r flwyddyn arferol dechrau yn yr ysgol.

Mae trefniadau yn y ddeddfwriaeth i ymdrin â cheisiadau am dderbyn disgyblion i'r dosbarth Derbyn a grwpiau blwyddyn arall yn ystod y flwyddyn academaidd. Bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethol yn ystyried y ceisiadau hyn ar sail ad hoc.

Mae trefniadau derbyn ar wahân yn weithredol ar gyfer y dosbarth Meithrin, ac nid ydynt yn rhoi hawl i blentyn gael lle yn y dosbarth Derbyn.

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol wedi defnyddio fformiwla i bennu Nifer Derbyn yr ysgol, sef 41. Bydd y Corff Llywodraethol yn derbyn disgyblion hyd at y nifer hwn heb unrhyw amodau, beth bynnag y bo'u ffydd a heb gynnal cyfweliad. Rhaid cyflwyno cais am le yn yr

ysgol ar y ffurflen briodol a'i hanfon yn ôl i'r ysgol erbyn y dyddiad a gyhoeddwyd, ar yr hwyraf.

Ni wnaiff y Corff Llywodraethol dderbyn mwy na 30 o ddisgyblion i ddosbarth Derbyn, neu luosrif hynny i Uned Blynyddoedd Cynnar.

Os enwir yr ysgol mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig mae'n ddyletswydd ar y Corff Llywodraethol dderbyn y plentyn.

Os ydy'r Corff Llywodraethol, fel yr Awdurdod Derbyn, wedi cynnig lle ar sail cais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol ran rieni, yna bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

Lle cafwyd lle ar sail twyll a bod y plentyn eisoes wedi dechrau yn yr ysgol, bydd y cyfnod y bu'r plentyn yn yr ysgol yn cael ei ystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad i dynnu'r lle a gynigiwyd yn ôl.

Mwy o geisiadau am leoedd na'r lleoedd ar gael

Os ydy nifer y ceisiadau yn uwch na'r Nifer Derbyn, bydd y Panel Derbyn a benodwyd gan y Corff Llywodraethol yn defnyddio'r meini prawf isod, mewn trefn blaenoriaeth:

1. Plant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol
2. Plant sy'n derbyn gofal nad ydynt yn dilyn y ffydd Gatholig.
3. Plant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig ym mhlwyfi y Santes Fair, Wrecsam, Llai (a'r Orsedd), Rhiwabon (a'r Waun a Llangollen) ac Owrtyn; y plwyfi mae'r ysgol yn eu gwasanaethu.
   (Noder: Nid yw'r Awdurdod Addysg Lleol yn cynnwys Owrtyn wrth ddarparu cludiant i Ysgol y Santes Fair)
4. Plant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig y gall yr ysgol ateb eu hanghenion cymdeithasol a bugeiliol dybryd yn well.

Yn achos plant Catholig yng nghategori 1, 3 a 4, bydd yn ofynnol i'r Panel Derbyn weld Tystysgrif Geni a Thystysgrif Bedydd gwreiddiol, ynghyd â geirda ysgrifenedig gan Offeiriad y Plwyf ar y ffurflen bwrpasol.

Yn achos plant yng nghategori 4, bydd yn ofynnol i'r Panel Derbyn weld tystiolaeth gefnogol gan feddyg, gweithiwr cymdeithasol neu'r Awdurdod Addysg Lleol yn nodi pam mai'r ysgol ydy'r un fwyaf addas ar gyfer y plentyn.

5. Plant â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar ddyddiad eu derbyn i'r ysgol.
6. Plant o enwadau Cristnogol eraill y mae gan eu rhieni ddeisyfiad gwirioneddol i'w plentyn gael ei addysgu mewn ysgol Gatholig, ac sy'n llwyr gefnogi'r ethos Gatholig.

Bydd yn ofynnol i'r Panel Derbyn weld Tystysgrif Geni a Thystysgrif Bedydd gwreiddiol, ynghyd â geirda ysgrifenedig gan Offeiriad y Plwyf neu Weinidog yr Efengyl ar y ffurflen bwrpasol.

6. Plant o ffydd eraill y mae eu rhieni yn dangos ymrwymiad i ethos yr ysgol.
7. Plant y mae'r Awdurdod Addysg Lleol wedi gofyn i'r ysgol roi lle iddyn nhw.

Os oes mwy o geisiadau nac o leoedd yn unrhyw un o'r categoriau uchod, bydd y Panel Derbyn yn cynnig lleoedd i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol, wedi ei fesur yn ôl y pellter byrraf rhwng drws ffrynt cartref neu adeilad fflatiau'r plentyn a phrif giat yr ysgol, gan ddefnyddio priffyrdd cyhoeddus, ac wedi'i gadarnhau gan Adran Cludiant yr Awdurdod Addysg Lleol.

Gweithdrefnau ar gyfer Blwyddyn Derbyn 2012

1. Bydd yr ysgol yn hysbysebu ei dyddiadau derbyn ym mhob un o'r plwyfi mae'n eu gwasanaethu ym mis Medi 2011.

2. Bydd yr ysgol yn dosbarthu ffurflenni derbyn/dewis ysgol ar gyfer 2012 ym mis Medi 2011. Dylid eu hanfon yn ôl i'r ysgol heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a gyhoeddwyd.

3. Bydd yr ysgol yn trefnu ymweliadau ymgyfarwyddo ar gyfer rhieni sydd wedi dewis Ysgol y Santes Fair. Yn achos rhieni nad ydynt yn Gatholigion bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am natur Gatholig yr ysgol, ei hethos a'r cwricwlwm.

4. Hysbysir rhieni erbyn 15 Mawrth 2012* p'un ai y rhoddwyd lle i'w plentyn ai peidio.
   * Y dyddiad hwn i'w gadarnhau gydag Awdurdod Addysg Lleol Wrecsam

5. Os bu eu cais yn aflwyddiannus, mae gan rieni yr hawl i gyflwyno apêl i Banel Apêl Annibynnol. Os na fu'n bosibl rhoi lle i blentyn, hysbysir rhieni am yr hawl yma yn y llythyr yn nodi'r penderfyniad.

6. Gofynnir i rieni sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad gysylltu â'r Pennaeth yn yr ysgol yn gyntaf, ac fe wnaiff hi eu cynghori sut i gysylltu â'r Panel Apêl Annibynnol.

7. Rhaid cyflwyno unrhyw apêl yn ysgrifenedig ddim mwy na 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn llythyr y penderfyniad. Bydd gwrandawiadau apêl yn cael eu cynnal cyn pen 30 diwrnod ysgol o'r dyddiad cau penodedig ar gyfer derbyn apelau.

Nodiadau

1. Bydd angen i'r Corff Llywodraethol gadarnhau'r trefniadau derbyn yn **2012** erbyn 15 Ebrill 2011.

2. Mae'r Corff Llywodraethol wedi penderfynu ymgynghori'r ffurfiol ar ei bolisi. Cynhelir ymgynghori ag Awdurdodau Derbyn cyfagos o 15 Rhagfyr 2010 am gyfnod o wyth wythnos. Bydd yr ymgynghori ysgrifenedig hwn rhwng Corff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Wrecsam, fel Awdurdod Derbyn yr ysgol, ac Awdurdodau Addysg Lleol Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, ynghyd ag Esgobaeth Wrecsam.

3. Rhaid cwblhau'r broses ymgynghori erbyn 1 Mawrth 2011. Yn dilyn y cyfnod wyth wythnos bydd y Corff Llywodraethol yn adolygu ei bolisi gan ystyried yr ymatebion, a bydd mewn sefyllfa i adolygu a phenderfynu ar ei drefniadau derbyn cyn 15 Ebrill 2011.

4. Bydd angen ystyried a phenderfynu ar drefniadau ar gyfer Medi **2013** ac wedi hynny yn unol â'r un broses a'r un amserlen (yn ddarostyngedig i unrhyw amrywio statudol). Mae'r Corff Llywodraethol wedi cytuno y bydd hwn yn eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfod cyntaf y llywodraethwyr ymhob blwyddyn ysgol. Yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad blynyddol hwn, bydd y Corff Llywodraethol yn penderfynu'n ffurfiol a ydy ymgynghori yn unol â'r Rheoliadau yn briodol ai peidio.